## *Gwasanaeth Cwnsela Myfyrwyr Trefniadau Mynediad at Gofnodion Gwybodaeth i gleientiaid*

Sylwer: Mae mynediad at unrhyw wybodaeth bersonol yn ddarostyngedig i delerau ac amodau Deddf Gwarchod Data, 1998. Gall unrhyw wybodaeth a ryddheir i wrthrychau data fod yn ddarostyngedig i'r eithriadau a nodir yn y Ddeddf honno.
Mae gan unrhyw gleient i'r Gwasanaeth, neu unrhyw un sydd wedi bod yn gleient yn y gorffennol, yr hawl i ofyn am gael gweld eu cofnodion. Mae gennym drefniadau yn eu lle i ddelio â cheisiadau o'r fath.

- Bydd yn rhaid i chi wneud cais ffurfiol i weld eich cofnodion cwnsela: gwneir hyn trwy Swyddog Gwarchod Data'r Brifysgol. Bydd yn rhaid i chi ofyn am Ffurflen Gais am Fynediad at Ddata Personol (Cais Gwrthrych am Wybodaeth)[1]. Gan fod yn rhaid i'r holl geisiadau am fynediad at ddata'r brifysgol fynd trwy'r Swyddog Gwarchod Data, rhaid i chi gytuno i'r Swyddog Gwarchod Data gael gwybod eich bod yn mynychu gwasanaeth cwnsela myfyrwyr. Ond bydd y Swyddog Gwarchod Data'n cadw'r wybodaeth hon yn hollol gyfrinachol. Bydd y swyddog yn gofyn i chi brofi pwy ydych, a chodir ffi weinyddu fach arnoch (tua £10). Bydd y swyddog yn cysylltu â ni unwaith y bydd y cais wedi dod i law.

- Mae gan y brifysgol 40 diwrnod i gydymffurfio â chais o'r diwrnod y derbyniwyd y cais ynghyd ag unrhyw ffioedd. Felly bydd y Gwasanaeth Cwnsela'n cysylltu â chi o fewn y cyfnod hwnnw i drefnu amser i chi alw heibio i weld eich cofnodion.

- Hoffem i chi gyfarfod aelod o'r staff cwnsela (eich cwnselydd eich hun neu un arall), cael copi o'ch cofnodion, ac ystafell lle gallwch edrych arnynt heb i neb darfu arnoch. Pan fyddwch wedi gorffen gallwch gyfarfod eto gyda'r cwnselydd dynodedig i drafod unrhyw bryderon neu gwestiynau sydd gennych am y cynnwys. Mae hyn er mwyn sicrhau cyn belled ag y bo'n rhesymol eich bod wedi cael amser i brosesu'r wybodaeth. Bydd y cwnselydd yn sicrhau bod y cofnodion yn ddealladwy (er enghraifft, eglurir unrhyw dalfyriadau a ddefnyddir yn y nodiadau). Ni fydd hyn yn cael effaith ar eich hawliau cyfreithiol mewn unrhyw ffordd.

[1] Available on the Registrar's Office website under legal compliance

- Mae gennych yr hawl i ofyn i unrhyw wallau ffeithiol gael eu cywiro. Os ydy hyn yn wir, yna byddai angen trafod hyn gyda'r cwnselydd a ysgrifennodd y nodiadau. Byddai ceisiadau felly am ddiwygiadau, hyd yn oed os na chytunir â hwy, yn cael eu nodi yn y cofnodion.

- Os ydych yn dymuno mynd â chopïau o unrhyw un o'ch cofnodion byddwn yn gofyn i chi lofnodi ffurflen i'r perwyl hwn cyn gadael.

- Yna caiff y Swyddog Gwarchod Data wybod eich bod wedi cael mynediad at eich cofnodion, a bydd hyn wedyn yn cael ei nodi yn eich cofnodion.

Sylwer fel cwnselwyr bod gennym ymrwymiadau moesegol at ein holl gleientiaid, a byddwn yn gwneud ein gorau glas i weithredu er eich lles gorau. Os ydych yn gleient i'r gwasanaeth ar hyn o bryd, ac yn meddwl mynd at eich cofnodion rydym yn eich annog i siarad gyda'ch cwnselydd yn y lle cyntaf. Os ydych wedi defnyddio'r gwasanaeth yn y gorffennol gallwch ffonio a gofyn am gael siarad naill ai gyda'r Cwnselydd ar Ddyletswydd neu Bennaeth y Gwasanaeth.

Er na allwn fynnu bod cleient yn ein cyfarfod i ddarllen eu nodiadau, credwn fod hyn yn syniad doeth. Mae gennym ymrwymiad i gleientiaid i sicrhau eu bod yn deall y cofnodion a welant, yn gallu gofyn cwestiynau a'u bod yn cael cefnogaeth i ddelio ag unrhyw deimladau neu ymatebion annisgwyl a allai godi.

Weithiau gellir cyfyngu ar fynediad at gofnodion:
'Gellir atal mynediad at wybodaeth sy'n nodi cyfraniadau gan drydydd partïon e.e. aelodau teulu, er mwyn amddiffyn cyfrinachedd y trydydd partïon hyn. Hefyd gellir atal mynediad at wybodaeth lle byddai mynediad yn achosi 'niwed difrifol' neu ofid i wrthrych y data, neu i berson arall. Mae niwed difrifol yn ymwneud ag iechyd neu gyflwr corfforol neu feddyliol gwrthrych y data neu'r trydydd parti dan sylw[i]'.

Os ydych yn dewis mynd â chopïau o unrhyw rai o'ch cofnodion, dylech fod yn ymwybodol o'ch cyfrifoldeb i gadw'r copïau'n ddiogel ac yn gyfrinachol, o'r canlyniadau posib os bydd trydydd parti yn gweld y copïau ac o'r posiblrwydd y byddwch yn gorfod datgelu gwybodaeth (e.e. os bydd yr heddlu yn cynnal chwiliad). Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o arwyddocâd caniatáu i'ch cofnodion gael eu rhoi i drydydd parti e.e. i dwrnai. Er enghraifft, mae angen i gleient sy'n mynd â chopi llawn o'u cofnodion ac yn rhoi rhai ohonynt yn unig i'w twrnai i gefnogi achos cyfreithiol dros iawndal wybod y gall y tîm cyfreithiol sydd yn eu herbyn wneud cais am weld yr holl nodiadau sydd ym meddiant y cleient. Ar ben hynny, gellir datgelu'r wybodaeth i'r holl bartïon; yr erlyniad yn ogystal â'r amddiffyniad. Mae'n well gennym, felly, ryddhau cofnodion i'r cleient yn bersonol, a chaniatáu iddynt hwy eu hanfon ymlaen wrth iddynt weld yn dda, yn hytrach nag ymateb yn uniongyrchol i gais gan e.e. twrneiod.

Kate Tindle

Addaswyd y daflen wybodaeth hon o daflen gan Wasanaeth Cwnsela Prifysgol Sheffield, gyda chaniatâd caredig Pennaeth Iechyd a Lles Myfyrwyr, Prifysgol Sheffield.

March 2013

[i] G1 Information Sheet.  Bond & Jenkins, 2008. Access to records of counselling and psychotherapy.  The British Association for Counselling and psychotherapy.